



Cip ar Fyrbrydau Sawrus

Er nad hon yw'r farchnad fwyaf (£50m), mae siopwyr Cymru yn prynu Byrbrydau Sawrus, ac yn prynu mwy o fyrbrydau, ac yn prynu'n amlach na gwedill Prydain. Serch hynny, mae'r farchnad yn dirywio wrth i siopwyr adael y categori. Gallai cwrdd ag anghenion niferus y defnyddiwr, yn cynnwys am fwyd iach, annog defnyddwyr i ddewis cynnyrch drytach a chynyddu gwerth y categori.

Mae byrbrydau sawrus yn dirywio yng Nghymru, fel yng ngweddill Prydain, wrth i ddefnyddwyr adael y categori. Mae'r farchnad yn dirywio drwyddi draw, ond mae'r effaith yn fwy yng Nghymru gan na welwyd symud i gynnyrch drytach.

Gan gyfrif am 42% o'r categori, mae creision yn arbennig o bwysig i Gymru, ac yn cynrychioli cyfran uwch o'r categori nag yng ngweddill Prydain, fel hefyd mae cymysgedd cnau a ffrwythau.

cig a chaws, i ddewis popcorn. Mae newid i brynu popcorn a chnau a chymysgedd cnau a ffrwythau yn codi gwerth, gan fod y prisiau'n uwch na chyfartaledd byrbrydau sawrus o £0.89.



Cyfanswm Allan o'r Cartref | Byrbrydau Sawrus yng Nghymru a Phrydain ac eithrio Gwasanaeth Bwyd | Data 32 w at 01 Ion 2017

Serch hynny, mae popcorn yn cymryd cyfran llai o werthiant yng Nghymru na gweddill Prydain. Mae hwn yn faes sy'n tyfu mewn marchnad sy'n dirywio fel arall. Gan edrych ar Brydain gyfan, mae mwyafrif y cynnyrch yn gweld dirywiad wrth i ddefnyddwyr adael y categori. Ond mae tystiolaeth o siopwyr yn newid o brynu cynnyrch fel *Pringles*, *Doritos*, *Mini cheddars*, ac eitemau sawrus eraill fel

Mae'r siopwr am fyrbrydau sawrus fel rheol yn iau ac yn fwy tebygol o fod yn fenywaidd na'r siopwr allan o'r cartref arferol. Mae popcorn yn cyd-fynd yn dda â'r ddemograffeg, ac mae cyfle felly i gynyddu cyfran Cymru o'r gwerthiant, gan sicrhau cynnydd gwerth £1m mewn marchnad sy'n dirywio fel arall. Mae cynnyrch sy'n apelio at nifer o anghenion y defnyddwyr yn gallu codi premiwm sylweddol.